Cofnodion **CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 16 Gorffennaf 2025, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. L. Connolly, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, A. R. James, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mr A. O. Williams – Swyddog Cyllid

## 38. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn dymuno gwneud hynny mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. Blakeley-Walker, S. Feeney, K. R. Jones, Ms R. S. Roberts ac W. Price.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Cynghorydd James Kenney, a oedd yn mynychu ei gyfarfod Cyngor cyntaf.

## 39. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd B. Mellor fuddiant personol yn eitem agenda rhif 17 gan fod toiledau cyhoeddus yn rhan o'i bortffolio fel aelod arweiniol Cabinet Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am yr Amgylchedd a Chludiant.

## 40. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 18 Mehefin 2025 - Cofnodion rhifau 19-37

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Yn absenoldeb y Cynghorydd K. R. Jones, ac yng nghyswllt cofnod rhif 31 (Eitem gan aelod: Cais gan drefnwyd Carnifal y Rhyl), gwnaeth Clerc y Dref gyfleu sylwadau'r Cynghorydd Jones y bu'r carnifal yn ddiwrnod da, a bod y trefnwyr wedi mynegi eu gwerthfawrogiad i'r Cyngor Tref am y cardiau anrheg a roddwyd fel gwobrau cystadlaethau.

Y Pwyllgor Cynllunio - 18 Mehefin 2025 - Cofnodion rhifau 1-4

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**41. CYFLWYNIAD I ELUSENNAU'R MAER 2024/2025**

Croesawodd y Maer gynrychiolwyr o The Ask Centre, Ms Eunice Parry, a Work in Progress, Mr Toby Fabin, a gwahoddodd y Cynghorydd C. L. Williams i gyflwyno sieciau gwerth £384.66, sef gweddill yr arian a gasglwyd gan y Cynghorydd Williams yn ystod ei blwyddyn fel maer.

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r ddwy elusen am eu gwaith rhagorol a dywedodd y byddai'r cyfraniad yn eu helpu i barhau'r gwaith da.

Manteisiodd y Cynghorydd Williams ar y cyfle i ddiolch i Mike a Lins Sealey am yr adloniant yn ei dawns elusennol, i'r Cynghorydd Carol Holliday, Maer Prestatyn, am y raffl a'r gwobrau a roddodd, i'r Cynghorydd Bob Murray, am lywio'r noson ac am roi gwobr sylweddol, fel y gwnaeth y Cynghorydd Ellie Chard.

Dywedodd y Cynghorydd Williams ei bod yn ddiolchgar iawn iddynt ac i'w Chonsort, Ann Jones, am bopeth y noson honno.

**42. CYFLWYNIAD I'R CYNGHORYDD MISS C. L. WILLIAMS**

Cyflwynodd y Maer gofnod o'i blwyddyn fel Maer yn 2024-2025 i'r Cynghorydd Williams, gan ei llongyfarch am flwyddyn brysur iawn.

**43. CYFLWYNO BATHODYN GWASANAETH HIR**

Gan fod y Cynghorydd Mrs S. L. Connolly yn mynychu'r cyfarfod ar-lein, cynghorodd Clerc y Dref ei bod wedi cytuno i'w bathodyn, yn dynodi 12 mlynedd fel aelod o'r Cyngor Tref, gael ei ddanfon i'w chartref.

***PENDERFYNWYD*** *cyflwyno'r bathodyn i'r Cynghorydd Connolly yn ei chartref.*

**44. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at Garnifal y Rhyl, a fwynhaodd yn fawr.

Dywedodd y Dirprwy Faer ei bod wedi mwynhau gwasanaethau dinesig Cyngor Tref Conwy a Chyngor Tref Rhuthun, a chafodd groeso cynnes yn y ddau ddigwyddiad.

## 45. <u>ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI (ATODLEN A)</u>

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2028 | BT | 422.96 | BT – Canolfan Cymuned Ffordd Wellington |
| 2021 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 1 o 3 2025/26 |
| 2029 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 3 o 10 |
| 2032 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 5,854.87 | Tâl net tri aelod o staff – mis Mehefin 2025 |
| 2030 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,409.40 | Talu wrth Ennill – mis Mai 2025 |
| 2031 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.79 | Cyfraniadau pensiwn – mis Mai 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 3,767.53 | Swyddog Apeliadau – taliadau 1, 2 a 3 o12 yn 2025/26 |
| 2033 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 1 o 4 yn 2025/26 |
| n/a | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2037 | BT | 112.34 | BT – Neuadd y Dref – system ffonau |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| 2038 | BT | 378.00 | Swyddfa Neuadd y Dref – band eang a ffôn |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **52,129.87** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y Cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 228.45 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Money Maker | 793.67 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 1,039.56 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **2,061.68** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**46. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwr | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2036 | G K Beaulah & Co Ltd | Cost danfon tarianau'r Cyngor Tref | £10.00 |
| 2044 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion yr haf 2025 | £11,462.04 |
| 2045a | Cyng. A Walker | Lwfans y Maer 2025/26 – taliad 1 o 3 (llai ffioedd bancio cyfrif banc y Maer) | £416.34 |
| 2045b | Cyfrif y Maer (Banc (Lloyds) | Ffioedd bancio am 4 mis @ £4.25 y mis | £17.00 |
| 2045c | Cyng. J Butterfield | Lwfans y Dirprwy Faer 2025/26 – taliad 1 o 3 | £133.34 |
| 2045d | Cyng. A Walker | Lwfans Uwch Swydd 2025/26 – taliad 1 o 3 | £166.67 |
| 2045e | Cyng. J Butterfield | Lwfans Uwch Swydd 2025/26 – taliad 1 o 3 | £166.67 |
| 2046 | Swyddfa'r Post | 3 x £20 cerdyn anrheg | £60.00 |
| 2047 | Sandra Williams | Gwasanaethau cyfieithu | £165.32 |
| 2048 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i dri chynrychiolydd yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar 18 Gorffennaf 2025 | £69.00 |
| 2049 | BJS Solutions | Gosod offer yn Neuadd y Dre far gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid | £1,152.00 |
| 2050 | Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig | Cyfraniaddau i ddigwyddiadau yn 2025/26 (Penwythnos Hwyl yr Haf, Sinema Awyr Agored a digwyddiadau'r Nadolig) | £83,000.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£96,818.38** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**47. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2025/26: CHWARTER 1 – MIS EBRILL – MIS MEHEFIN 2025**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn cynghori fod buddsoddiadau'r Cyngor Tref wedi ennill £4,330.15 yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

**48. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30 MEHEFIN 2025 A'R RHAGFYNEGIAD AR GYFER 2025/26**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a thynnodd sylw'r aelodau at yr amrywiaethau a ragwelwyd a'r diffyg yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol o fymryn llai na £58,000, gan adael balans o ychydig llai na £558,000 ar ddiwedd mis Mawrth.

Hefyd, cyfeiriodd at yr ansirwydd ynghylch y swyddfeydd, gwasanaethau wedi'u comisiynu at ati, a'r angen am gynllun ar gyfer defnyddio Cronfa wrth gefn Prosiectau'r Maer, gwerth £350,000.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

**49. PENODI CYNRYCHIOLWYD I GRŴP GWEITHREDU YNGHYLCH DEMENTIA Y RHYL**

Hysbysodd y Maer am ymddiswyddiad y Cynghorydd A. J. Rutherford yn anffodus oherwydd bod gwrthdaro parhaus yn ei ddyddiadur, a gofynnodd am enwebiadau yn ei le.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE a Mrs J. M. Evans yn rhannu'r swydd.*

**50. PENODI LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL**

Hysbysodd y Maer ei fod wedi ymddiswyddo o'i swydd fel llywodraethwr yn Ysgol Crist y Gair oherwydd ymrwymiadau gwaith, a gofynnodd am enwebiadau yn ei le.

***PENDERFYNWYD,*** *gan na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau, y byddai Clerc y Dref yn gofyn i'r aelodau nad oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod a oedd ganddynt ddiddordeb yn y swydd.*

**51. PENODI LLYWODRAETHWR CYMUNEDOL YCHWANEGOL**

Hysbysodd y Maer am y sedd wag yn Ysgol Dewi Sant, yn dilyn ymadawiad y cyn Gynghorydd Mrs J. Hughes, a gofynnodd am enwebiadau yn ei lle.

***PENDERFYNWYD,*** *gan na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau, y byddai Clerc y Dref yn gofyn i'r aelodau nad oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod a oedd ganddynt ddiddordeb yn y swydd.*

**52. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**53. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.*

**54. CYNGOR SIR DDINBYCH – TOILEDAU CYHOEDDUS Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 34 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025, hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd y costau gan Gyngor Sir Ddinbych, mewn cyfrinachedd, ynghylch pob un o doiledau cyhoeddus y Rhyl (dosbarthwyd yr manylion gyda'r agenda).

Yn dilyn ystyried y mater yn drylwyr daeth aelodau i benderfyniad, a fyddai'n dibynnu ar ofyn un cwestiwn arall i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y toiledau cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych am eglurhad am yr un toiled cyhoeddus dan sylw, cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cyngor ym mis Medi i'r aelodau ei gymeradwyo cyn cyflwyno ymateb ffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych.*

**55. COELCERTH AC ARDDANGOS TÂN GWYLLT Y GYMUNED**

Cynghorodd Clerc y Dref y cyllidebwyd y swm arferol o £5,000 ar gyfer y tân gwyllt, a gofynnodd i'r aelodau gadarnhau eu bod yn cefnogi'r arddangosfa eleni.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cyfraniad o £5,000.*

**56. SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF**

Cyflwynodd Clerc y Dref a Chadeirydd Pwyllgor Staffio'r Cyngor Tref ddiweddariad llafar, mewn cyfrinachedd, ar ran y Pwyllgor ynghylch y sefyllfa staffio gyfredol, ac am y swydd wag ar gyfer Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol, a hysbysebwyd ar wefan y Cyngor Tref.

**57. GWYLIAU MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gymeradwyo'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r aelodau a ganlyn, am y cyfnod rhwng 17 Gorffennaf tan 18 Medi 2025:

| | | |
|---|---|---|
| Materion dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion cynllunio Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor |
| Eitemau'r Pwyllgor | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor |
| Cynllunio Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Strategol a Gweithredol |
| Unrhyw fusnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *that the arrangements were confirmed.*

**58. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ……………….……….